Adroddiad i'r	Cyngor Sir
Dyddiad y cyfarfod	Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2023
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cyng. Jason McLellan, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych a chadeirydd BGC; Nicola Kneale, Pennaeth Interim Busnes Gwella a Moderneiddio
Awdur yr adroddiad	Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cyngor Sir Ddinbych
Teitl	Cynllun Lles BGC Conwy a Sir Ddinbych 2023 i 2028

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn cyflwyno Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023 i 2028.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad ynghylch a yw'r Cyngor yn cefnogi'r Cynllun Lles fel partner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn nodi Cynllun Lles y BGC yn atodiad 1 (yn arbennig yng nghyd-destun Cynllun Corfforaethol y Cyngor) ac yn cymeradwyo a chefnogi'r Cynllun.

3.2. Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4.1. Yn 2015, sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Ar gyfer Sir Ddinbych, mae'r BGC ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n rhaid i Aelodau pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnwys: i. Yr awdurdod (neu awdurdodau) lleol; ii. Y Bwrdd Iechyd Lleol; iii. Awdurdod Tân ac Achub Cymru; a iv. Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal â'r aelodau hyn, mae'n rhaid i bob BGC wahodd y bobl ganlynol i gymryd rhan yn y Bwrdd: i. Gweinidogion Cymru; ii. Y Prif Gwnstabl; iii. Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd; iv. Y Gwasanaethau Prawf; ac v. o leiaf un corff sy'n cynrychioli'r sefydliadau gwirfoddol perthnasol.

4.2. Maer ddeddf yn gosod gofyniad statudol ar bob BGC i gynhyrchu Cynllun Lles Lleol ar gyfer eu hardal sy'n amlinellu sut mae'n bwriadu gwella elfennau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a lles diwylliannol ei ardal. Mae'n gwneud hyn drwy osod amcanion lleol a fydd yn gwneud y gorau o'r cyfraniad a wneir gan y bwrdd i gyflawni Nodau Lles Cymru yn ei ardal. Rhaid cyhoeddi'r Cynllun Lles Lleol cyn pen blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r Asesiad Lles. Felly, rydym yn gweithio tuag at ddyddiad cau arfaethedig o Fawrth / Ebrill 2023 ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun Lles Lleol (yn dilyn cadarnhad gan sefydliadau partner).

4.3. Y peth cyntaf i'w bwysleisio mewn perthynas â'r adroddiad hwn yw bod Cynllun Lles y BGC (a gyflwynir yn atodiad 1) wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol y Cyngor (a gan yr un tîm): Ni ddylai'r ddau gynllun wrthdaro o gwbl, na rhoi baich ychwanegol ar y cyngor. Gobeithir y bydd Cynllun y BGC yn atgyfnerthu, a thrwy waith partneriaeth, yn gwella nifer o'r ymrwymiadau mae'r Cyngor wedi'u gwneud yn ein Cynllun Corfforaethol ein hunain, yn arbennig mewn perthynas â'r themâu sy'n cefnogi iechyd, cydraddoldeb a thegwch, ffyniant, gwytnwch yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, a thai.

4.4. Gydag arweiniad yr Asesiad Lles, mae'r BGC wedi cynnal nifer o drafodaethau blaenoriaethu (yn Ionawr, Mawrth a Mai) gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, i ystyried pa feysydd o bryder fyddai'n elwa fwyaf o ymyrraeth y BGC. Roedd y trafodaethau hyn yn ceisio adnabod achosion y problemau a nodwyd yn yr asesiad, gan ystyried eu perthynas â'i gilydd a lefel y dylanwad neu reolaeth sydd gan y BGC. Yn olaf, cytunwyd y dylid cyflwyno un prif thema sy'n ceisio lliniaru amddifadedd ac anghydraddoldeb.

4.5. Bu i'r BGC gwrdd eto ym mis Gorffennaf a chytuno ar amlinelliad Cynllun sy'n ceisio **gwneud Conwy a Sir Ddinbych yn lle mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd.** Yna cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 17 Awst, a oedd yn weithredol tan 9 Tachwedd. Ar yr un pryd, cychwynnwyd y cyfnod o 14 wythnos ble roedd gofyn i Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddarparu adborth ar ein cynllun drafft.

4.6. Cwblhawyd gwaith sylweddol rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022 i ddatblygu'r Cynllun yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd a'r wybodaeth sydd wedi dod â ni at y pwynt hwn, gan gyfarfod ddwywaith gyda chynrychiolydd Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i drafod eu hadborth ar y Cynllun. Mae swyddogion cefnogi BGC hefyd wedi cwrdd ddwywaith i ddatblygu'r Cynllun a thrafod adborth o'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymateb manwl gan bartneriaid yn CNC a BIPBC. Y drafft a gyflwynir yn atodiad 1 yw penllanw'r gwaith hwn, a gafodd ei gymeradwyo gan bartneriaid yng nghyfarfod y BGC a 30 Tachwedd.

4.7. Mae bellach yn fater i sefydliadau aelodau unigol gadarnhau'r Cynllun yn ystod y gaeaf drwy eu sianeli cymeradwyo a ddewiswyd, a fydd yn galluogi'r BGC i fabwysiadu'r Cynllun Lles yn ffurfiol ym mis Mawrth 2023.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Datblygwyd Cynllun Lles y BGC ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol y cyngor ac mae'n ategu at addewidion y cyngor mewn perthynas â:

- Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl
- Sir Ddinbych ffyniannus
- Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus
- Sir Ddinbych mwy gwyrdd
- Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal.

5.2. Drwy weithio mewn partneriaeth ehangach drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y themâu hyn, gobeithir y bydd y Cyngor yn gallu gwella'r cyfraniad a wnawn ar y cyd er lles cymunedau yn Sir Ddinbych.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn codi o ganlyniad i'r Cynllun neu'r adroddiad hwn, er wrth ddatblygu rhywfaint o'i gamau, bydd y BGC angen asesu'r gofynion ar gyfer adnoddau a chapasiti, byddai'n rhaid i bartneriaid ddarparu hyn (gan nad oes gan y BGC gyllideb). Ond fel y soniwyd eisoes, mae'r ymrwymiadau a wneir yn y Cynllun Lles eisoes yn ategu at yr ymrwymiadau mae'r Cyngor wedi'u gwneud yn y Cynllun Corfforaethol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Ar y cyfan, mae'r Asesiad o Effaith wedi darparu canlyniad cadarnhaol i effaith y Cynllun Lles, gydag ond 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn cael asesiad niwtral.

7.2. Fe ddylai'r BGC barhau i ail-ymweld â'r asesiad o effaith yn rheolaidd ac adolygu'r canfyddiadau i lywio'r dull ar gyfer datblygu, ymgysylltu ac ymgynghori pellach ar y Cynllun Lles. Dylid parhau i ymgysylltu â grwpiau nas clywir ganddynt yn aml ar draws y rhanbarth. Dylai'r BGC hefyd ddefnyddio'r asesiad o effaith fel nodyn atgoffa, gan ddefnyddio'r pynciau a'r cyngor i lywio ei asesiad lles ac ymgysylltu.

7.3. Dylid nodi ac ystyried y cyfleoedd a amlygwyd ar ddiwedd bob egwyddor datblygu cynaliadwy a'r saith nod lles yn drylwyr. Mae hefyd yn bwysig nodi bod lefel y BGC o ddylanwad a rheolaeth yn amrywio ar draws rhai o'r camau yr ydym wedi'u nodi a bydd hyn yn effeithio ar allu'r BGC i gyflwyno effeithiau cadarnhaol mewn rhai meysydd. Bydd yr hinsawdd economaidd a gallu partneriaid i ddarparu hefyd yn cael effaith ar lwyddiant y Cynllun.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r Cynllun Lles wedi'i seilio ar dystiolaeth o'r Asesiad Lles, sydd wedi bod allan ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gydol mis Chwefror a mis Mawrth 2022. Yn ogystal â hyn, fe'i cyflwynwyd i Gyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych yn Chwefror. Mae dau weithdy a chyfarfod cyhoeddus o'r BGC wedi trafod canfyddiadau'r asesiad a blaenoriaethu themâu. Cefnogwyd y rhain gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.

8.2. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynllun drafft rhwng 17 Awst a 9 Tachwedd. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd trafodaethau gyda Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cefnogi swyddogion ac aelodau'r BGC a'r cydbwyllgor Craffu.

8.3. Cyn rhannu'r adroddiad hwn gyda'r Cyngor, mae eisoes wedi cael ei drafod a'i gefnogi gan yr Yr Uwch Dîm Arwain a'r Cabinet.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Os na fydd y Cyngor yn cefnogi'r Cynllun neu'n cynnal ei ymrwymiad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae risg y bydd y cyngor, drwy ganolbwyntio ar ei ddarpariaeth ei hun, yn dyblygu gwaith sy'n digwydd mewn sefydliadau eraill; neu na fydd gwaith partneriaeth i gefnogi amcan y BGC yn darparu'r buddion gorau i drigolion Sir Ddinbych.

10.2. Mae risgiau eraill ynghlwm â'r Cynllun Lles a fydd yn cael eu rheoli gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys:

- Mae risg nad oes gan y BGC y capasiti, dylanwad na'r rheolaeth i gyflawni'r Cynllun. Caiff y risg ei lliniaru wrth i'r BGC feithrin dull arweinyddiaeth gan y cydnabyddir prinder adnoddau'r BGC, yn yr un modd â phartneriaid yn yr argyfwng cyfredol mewn perthynas â recriwtio a chadw staff.
- Mae risg fod blaenoriaethau'r BGC yn dyblygu'r gwaith sy'n digwydd mewn sefydliadau eraill. Mae'n bwysig felly i weithio'n agos â phartneriaid a budd-ddeiliaid i nodi sut y gallai rôl arweinyddiaeth y BGC ychwanegu'r gwerth gorau.
- Mae risg bod adborth gan y comisiynydd, partneriaid neu'r cyhoedd yn rhoi pwysau ar Gynllun Lles y BGC i gymryd mwy na'r hyn all ei gyflawni'n rhesymol.
- Mae risg na fydd y Cynllun Lles yn barod i'w gymeradwyo gan y BGC ym mis Mawrth 2023, gan golli'r dyddiad cau statudol. Yn seiliedig ar gynnydd presennol, mae hyn yn annhebygol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Pennod 2, adran 43, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015